Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MAE GWENYN, GLÖYNNOD BYW A PHRYFED PEILLIO ERAILL MEWN TRAFFERTH A HYNNY AM NIFER O RESYMAU.

OND Y NEWYDDION DA YW EIN BOD NI'N GALLU HELPU.

Pe bai gwenyn, gwyfynod neu löynnod byw yn gallu siarad, beth fydden nhw'n gofyn inni amdano? Fwy na thebyg, bydden nhw am inni warchod a gwella'r mannau lle mae eu bwyd yn tyfu a'r mannau lle y maen nhw'n byw ac yn cysgodi, i beidio â defnyddio cemegau niweidiol ac inni ddweud wrth gymaint o bobl â phosib am y problemau maen nhw'n eu hwynebu – er mwyn i fwy o bobl allu helpu.

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i warchod pryfed peillio yng Nghymru, o'r enw Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio[1]. Cafodd Tasglu o fudiadau ac unigolion ei sefydlu i roi'r cynllun ar waith.

Nod **Caru Gwenyn**, cynllun newydd y Tasglu, yw helpu'n holl bryfed peillio trwy greu gwlad o gymunedau a mudiadau sy'n caru pryfed peillio.

Menter hollol newydd yw **Caru Gwenyn** ar gyfer cymunedau a mudiadau cymunedol, ysgolion, cyrff cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned, busnesau, prifysgolion a cholegau, addoldai... a phob math o gyrff a sefydliadau eraill ledled Cymru.

Hyd y gwyddom, dyma'r cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath a'i amcan yw gwneud Cymru'n wlad sy'n caru pryfed peillio.

LLun: © Steven Falk

LLun: Jan Miller at www.7wells.co.uk

1 pdf.cynllungweithreduargyferpryfedpeillio

AI DIM OND GWENYN SY'N CAEL HELP?

Nage – rydym yn helpu pob pryfedyn sy'n peillio.

Mae pryfed peillio yn cynnwys gwenyn mêl, cacwn/gwenyn bwm a gwenyn unig eraill, rhai picwn/gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a chlêr hofran, a rhai chwilod a chlêr/pryfaid.

Er mai 'Caru Gwenyn' yw enw'r cynllun, rydyn ni am i bobl helpu ein holl bryfed peillio ac nid gwenyn yn unig.

Ymunwch â ni i weithredu 4 prif thema, i greu gwlad o gymunedau a mudiadau sy'n caru pryfed peillio.

Pedwar amcan Caru Gwenyn yw:

1. **Bwyd –** gwneud yn siŵr bod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal
2. **Cartre pum seren –** darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw
3. **Dim plaladdwyr na chwynladdwyr –** addewid i beidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio
4. **Hwyl –** cael y gymuned i gymryd rhan ac esbonio wrth bobl pam eich bod yn helpu pryfed peillio.

REOLAETH GYNALIADWY O ADNODDAU NATURIOL

Mae Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pryfed peillio yn prinhau ac mae hyn yn peryglu ein gallu i gynhyrchu bwyd, pren a ffibr. Mae darparu mwy o seilwaith trefol gwyrdd a mesurau cynefinoedd iseldir gwell yn flaenoriaethau. Mae rheoli mannau gwyrdd a chymryd camau eraill i gefnogi pryfed peillio yn enghraifft ymarferol o Reolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol.

Bydd cymryd camau o dan bedair thema Caru Gwenyn yn darparu nifer o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol a hefyd yn cyfrannu at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Felly, os hoffech fyw mewn Tref neu Gymuned sy'n **Caru Gwenyn**, neu weithio i Fusnes sy'n Caru Gwenyn neu astudio mewn Ysgol, Prifysgol neu Goleg sy'n Caru Gwenyn, yna darllenwch ymlaen i ddysgu mwy am y cynllun newydd, difyr hwn.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i bryfed peillio Cymru wrth inni weithio at y nod o fod y wlad Caru Pryfed Peillio gynta yn y byd!

> MAE'R DYFODOL YN DIBYNNU AR YR HYN A WNEWCH HEDDIW

Mahatma Gandhi

GWEITHREDU NAWR

Gyda chymaint o fudiadau, cyrff, busnesau ac unigolion yn gweithio i warchod a gwella bioamrywiaeth, ecosystemau a natur Cymru a'r byd, dyma gyfle nawr inni wneud newidiadau positif go iawn a thymor hir.

P'un a ydych yn rhan o'r cynllun **Caru Gwenyn**, yn aelod o'r un o lawer o fudiadau sy'n ein cefnogi neu'n unigolyn sy'n poeni am y ddaear, ystyriwch beth allwch chi ei wneud i greu byd sy ychydig bach yn wyrddach – darllenwch Ganllaw Gweithredu **Caru Gwenyn** ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[2].

[2] www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

LLun: © Laura Curry

© Hawlfraint y Goron 29582 Argraffu ISBN: 978-1-4734-7645-5 Digidol ISBN: 978-1-4734-7646-2